Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd
EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

3 Tachwedd 2024
Teyrnas I

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Ifer Arch

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Tim Saunders / Gerallt Hughes
Emynau: 19 (Ceisiwch); 313 (Dismissal 111); 235 (Bod Alwyn); 236 (Rhondda)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salmau: 145:1-9
Darlleniadau: Daniel 2:1-11 a 25-48
Datguddiad 7:9-17
Darllenwyr: Mair Matthews / Siân Eleri Thomas
Emynau: 169 (All Saints); 541 (Richmond); 235 (Penmaen)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Mel Amos; Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Nos Fawrth 5 Tachwedd 2024
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 10 Tachwedd 2024
Teyrnas II - Sul y Cofio
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi

YR YSGOL SUL
Cynhelir yr Ysgol Sul heddiw, 3 Tachwedd yn ystod y gwasanaeth 10.30am.

CYNGERDD AWR GINIO
Cynhelir cyngerdd awr ginio gan driawd o Sinfonia Cymru (ffliwt, telyn a soddgrwth) o dan nawdd *Actifyddion Artistig Caerdydd* dydd Mawrth 5 Tachwedd am 1.00pm. Bydd y cyngerdd yn cynnwys darnau gan Edward Elgar, Ian Clarke a Camille Sant-Saëns. Tocynnau wrth y drws am £6.50. Croeso i bawb.

GWEFAN YR EGLWYS
Mae gwefan yr eglwys dros ddeng mlwydd oed ac mae angen ei diwygio. Er mwyn helpu gyda'r gwaith o ddiwygio'r wefan a fyddech gystal â chymryd 5munud i lenwi'r holiadur byr a'i ddychwelyd i un o'r wardeniaid erbyn dydd Sul 10 Tachwedd os gwelwch yn dda. *Y Ficer*

NOSON YNG NGHWMNI MEG ELIS
Yma, yn EDS nos Fawrth **12 Tachwedd am 7.30pm** bydd Meg yn lansio ei llyfr newydd "Yr Enwog Bererinion: Gwarchod y fflam", sef detholiad o ysgrifau gan ei mam, Mari Ellis. Yn ogystal â bod yn achlysur i EDS bydd yn agored i bawb.

NEWID YN NHREFN DERBYN Y CYMUN
Ers rhai blynyddoedd bellach yr ydym wedi bod yn derbyn y Cymun yng nghorff yr eglwys. (Daeth yr arfer hwn i fodolaeth yn ystod y cyfnod o ymbellhau cymdeithasol). Mae nifer wedi gofyn imi bryd y cawn ddychwelyd i'r hen drefn o fynd i fyny at yr allor i dderbyn y Cymun. Does dim cyfyngiadau yn ein rhwystro bellach, ac felly o ddydd Sul 17 Tachwedd byddwn yn gweinyddu'r Cymun yn y gangell. Bydd croeso i chi gymuno trwy sefyll neu benlinio wrth reilen yr allor. Os yw'n well gennych gallaf ddod â'r Cymun i chi yn eich sedd. *Y Ficer.*

CLOCH DEWI
Bwriedir cyhoeddi rhifyn o gylchgrawn yr eglwys, Cloch Dewi, ym mis Rhagfyr. Felly, nawr yw'r amser i ddechrau meddwl a hoffech gyfrannu deunydd i'r rhifyn hwn. Manylion pellach i ddilyn

CYTÛN CAERDYDD A'R BAE
Cynhelir cyfarfod o eglwysi Cytûn Caerdydd a'r Bae nos Fercher 6 Tachwedd yn Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, Heol Siarl am 7.30pm.

BEDYDD ESGOB
Bydd yr Esgob yn dod atom nos Sul 24 Tachwedd am 6.00pm i gynnal gwasanaeth Bedydd Esgob. Cynhelir dosbarthiadau paratoi ar gyfer ymgeiswyr yn ystod mis Tachwedd. Os hoffech dderbyn bedydd Esgob ac os nad ydych wedi cael cyfle i siarad â'r Ficer gofynnir i chi wneud cyn gynted â phosib. Os hoffech ragor o wybodaeth mynnwch air â'r Ficer os gwelwch yn dda.

CANOLFAN GLYD Y TABERNACL
Yr ydym yn casglu dillad ar gyfer Canolfan Glyd y Tabernacl yn ystod mis Tachwedd. Gofynnir am hosanau a dillad isaf o unrhyw faint ar gyfer gwragedd neu ddynion. Mae modd prynu pacedi o'r uchod yn weddol rad o archfarchnadoedd a siopau dillad mawr. Os hoffech gyfrannu, bydd bocs pwrpasol yng nghefn y neuadd i dderbyn unrhyw gyfraniadau. Os am ragor o wybodaeth mynnwch air â Judith Poulson.

AGOR YR EGLWYS Dydd Mercher 6 Tachwedd
Yn gwarchod yr eglwys:
Stuart Owen Jones a Rhys Jones

GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:
- Eglwys Talaith De Ddwyrain Asia
- Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins (Arweinydd)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 4 Tachwedd: Saint a Merthyron y Cymun Anglicanaidd
Eseia 28:14-16; Salm 119:89-96; Ioan 15:17-27
Gweddïwn: Esgobaeth Kasai – Mbujimayi – Talaith de L'Eglise Anglicane Du Congo
Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd, y Parchedig Ganon Andrew Sully (Arweinydd)

Dydd Mawrth 5 Hydref: Cybi
Effesiaid 5:21-33; Salm 128; Luc 13:18-21
Gweddïwn dros: Esgobaeth Katakwa – Eglwys Anglicanaidd Cenia
Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Jim Griffiths (Arweinydd)

Dydd Mercher 6 Tachwedd: Illtud
Effesiaid 6:1-9; Salm 145:10-18; Luc 13:22-30
Gweddïwn dros: Esgobaeth Katanga – Province de L'Eglise Anglicane Du Congo
Ardal Gweinidogaeth Taff Wenallt, y Parchedig John Davis (Arweinydd)

Dydd Iau 7 Tachwedd: Richard Davies
Effesiaid 6:10-20; Salm 144:1-10; Luc 13:31-35
Gweddïwn dros: Esgobaeth Katsina – Eglwys Nigeria
Ardal Gweinidogaeth y Garth, y Parchedig Sandra Birdsall (Arweinydd)

Dydd Gwener 8 Tachwedd: Holl Saint Cymru
Eseia 25:6-9; Salm 24:1-6; Ioan 11:32-44
Gweddïwn dros: Esgobaeth Kebbi - Eglwys Nigeria
Deoniaeth Eglwysilan, y Parchedig Simon Freeman (Deon Bro)
Ardal Gweinidogaeth y Llan, y Parchedig Vincent Gardner (Arweinydd)

Dydd Sadwrn 9 Tachwedd:
Galarnad 3:17-26; Salm 23; Ioan 5:19-25
Gweddïwn dros: Esgobaeth Kentucky – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Ardal Gweinidogaeth Caerffili a Chwm Aber, y Parchedig Emma Rees-Kenny (Arweinydd)